Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



Llywodraeth Cymru

# Crynodeb o'r Adolygiad o Ddulliau Rheoli Cocos yng Nghymru yn 2012

ISBN digidol 978 0 7504 8650 7
© Hawlfraint y Goron 2013
WG17482

# Cynnwys

| | Tudalen |
| --- | --- |
| Trosolwg | 1 |
| Cyflwyniad | 1 |
| Diben yr ymgynghoriad | 1 |
| Cyfnod yr ymgynghoriad a dosbarthiad | 1 |
| Ymatebion a gafwyd | 2 |
| Cwestiynau’r ymgynghoriad | 3 |
| Ymatebion i bob cwestiwn | 5 |
| Camau nesaf | 28 |
| Atodiad A – Rhestr o Ymatebwyr | 29 |

## Trosolwg

Gweledigaeth Strategaeth Pysgodfeydd Cymru a gyhoeddwyd yn 2008 yw cefnogi datblygiad pysgodfeydd hyfyw a chynaliadwy er mwyn diogelu stociau pysgod a'r amgylchedd morol. Cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd ar 27 Mawrth 2012 ei fwriad i adolygu'r modd y caiff pysgodfeydd rhynglanwol eu rheoli yng Nghymru yn ystod haf 2012.

Mae pysgota am gocos yn rhan annatod o hanes a diwylliant arfordir Cymru. Mae pobl wedi bod yn casglu cocos i'w bwyta ers Oes Newydd y Cerrig. Mae diwydiant rhyngwladol a modern bellach wedi datblygu sydd ynghlwm â phrosesu a chyflenwi cocos i farchnadoedd yng Nghymru, Ewrop a thu hwnt. Mae cocos yn sylfaen i gyfran helaeth o weithgareddau nifer o weithwyr proffesiynol sydd ynghlwm â'r diwydiant pysgod cregyn, sy'n cynnwys casglu, tyfu, prynu, prosesu, marchnata neu gyfuniad o'r rhain.

Derbynnir bod gan y cyhoedd hawl i bysgota am bysgod cregyn a physgod môr ar hyd y blaen traeth. Gall yr hawl hwn fod yn amodol ar reoliadau a hefyd gael ei gyfyngu gan y defnydd o ddeddfwriaeth, gan gynnwys Deddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967 lle y byddai Gorchymyn o blaid 'grantî' yn rhoi'r gallu i reoleiddio'r niferoedd sy'n gweithredu o fewn y bysgodfa drwy gynllun trwyddedu. Mae Gorchymyn o'r fath wedi bodoli yng Nghilfach Tywyn ers 1965 a hefyd yn Aber Dyfrdwy ers 2008 (yn achos y ddwy bysgodfa hyn, Asiantaeth yr Amgylchedd yw grantî a rheolwr y pysgodfeydd cocos).

Nid yw pysgodfeydd cocos eraill yng Nghymru yn cael eu rheoleiddio yn yr un modd er eu bod mewn rhai achosion yn sylweddol (o ran maint yr ardal neu hyd y cyfnod). O ganlyniad, bernir bod llawer o oblygiadau negyddol clir ynghlwm â natur anwadal y pysgodfeydd hyn i gymunedau lleol a'r amgylchedd. Wrth edrych tua'r dyfodol, felly, mae'n hollbwysig sicrhau bod pysgodfeydd cocos Cymru yn cael eu rheoli mewn modd sy'n sicrhau'r manteision mwyaf posibl mewn modd cynaliadwy. Golyga natur y diwydiant a lefel y cyswllt ag Awdurdodau Lleol y bydd angen i sawl diwydiant gydweithio bellach. Mae hyn yn bwysig iawn wrth ystyried yr effaith ar yr hyn y mae pobl yn ei fwyta, y gadwyn fwyd a chyflwyno rheoliadau ynghylch Hylendid Bwyd.

## Cyflwyniad

Yn ystod 2012, cynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad o'r trefniadau ar gyfer rheoli pysgodfeydd cocos yn Nghymru ar ffurf ymgynghoriad ffurfiol. Cyflwynodd y ddogfen ymgynghori o'r enw "Rheoli Pysgodfeydd Cocos yng Nghymru – Adolygiad 2012" y sefyllfa bresennol a chynigion â'r nod o sicrhau bod y pysgodfeydd hynny yn cael eu rheoli'n effeithiol er mwyn bod yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol a bodloni anghenion cymunedau lleol. Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad hwn.

## Diben yr ymgynghoriad

Mae Llywodraeth Cymru'n ymwybodol bod angen rheoleiddio'r Pysgodfeydd Cocos yng Nghymru yn well er mwyn sicrhau cynaliadwyedd y stoc cocos er lles ein ecosystem a'r diwydiant casglu cocos. Bydd cynyddu'r gallu i olrhain y cig at ddibenion hylendid bwyd a gwella trefniadau gorfodi i leihau potsio o gymorth gyda hyn.

Diben y ddogfen ymgynghori "Rheoli Pysgodfeydd Cocos yng Nghymru – Adolygiad 2012" oedd cael barn pobl ar y rheoliadau a'r newidiadau arfaethedig.

## Cyfnod yr ymgynghoriad a dosbarthiad

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad am gyfnod o 12 wythnos, gan ddechrau ar 18 Gorffennaf 2012 a dod i ben ar 10 Hydref 2012. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru a dosbarthwyd llythyr i dros 2,000 o randdeiliaid yn rhoi gwybod iddynt am yr ymgynghoriad ac yn eu gwahodd i ymateb.

## Ymatebion

Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad. Cafodd yr holl ymatebion eu dadansoddi a'u hystyried fel rhan o'r broses o benderfynu pa fesurau fydd yn cael eu rhoi ar waith. Cafwyd cyfanswm o 50 o ymatebion i'r ymgynghoriad, gan unigolion yn bennaf. Mae rhestr o ymatebwyr yn Atodiad A. Mae'r tabl isod yn dangos y dadansoddiad o'r ymatebion.

## Tabl 1: Ymatebion fesul sector

| **Sector** | **Nifer yr ymatebion** | **Canran cyfanswm ymatebion o bob sector** |
|---|---|---|
| Casglwyr cocos | 27 | 54% |
| Y diwydiant cocos | 4 | 8% |
| Sefydliadau buddiannau cymunedol | 9 | 18% |
| Sefydliadau eraill | 10 | 20% |
| **Cyfanswm** | 50 | 100% |

## Cwestiynau'r ymgynghoriad

C1 Beth yw eich ymwneud â'r pysgodfeydd cocos yng Nghymru?

1a Mae gennyf ddiddordeb mewn pysgodfeydd cocos neu rwy'n byw gerllaw pysgodfa o'r fath.

1b Weithiau rwy'n casglu cocos at fy nefnydd fy hun/fy nheulu/fy ffrindiau.

1c Rwy'n casglu cocos i'w gwerthu pan fydd cyfle yn lleol.

1d Rwy'n gasglwr cocos masnachol ac yn teithio i fannau lle y gellir eu casglu.

1e Arall; rhowch fanylion.

C2 Ydych chi'n cytuno y dylid rheoleiddio pysgodfeydd cocos mewn modd gwahanol yn dibynnu ar eu maint?

C3 Ydych chi'n cytuno y dylid defnyddio dull amlasiantaethol i reoli'r bysgodfa?

C4 Ydych chi'n cytuno y dylid cadw cofrestr o'r holl gasglwyr cocos masnachol sy'n dymuno pysgota yng Nghymru, y dylent fod yn destun cynllun bagiau a thagiau statudol, ac y dylai fod yn ofynnol iddynt ddychwelyd ffurflenni yn nodi faint o gocos a gasglwyd ganddynt?

C5 Ydych chi'n cytuno â'r darpariaethau 'bagiau a thagiau' ar gyfer y pysgodfeydd mwyaf fel ffordd o reoli dulliau olrhain a lleihau'r risg y bydd cocos anghyfreithlon yn mynd i mewn i'r gadwyn fwyd?

C6 Ydych chi'n cytuno y dylai fod gan y Prif bysgodfeydd cocos gynlluniau caniatáu cyfyngedig?

C7 Ydych chi'n cytuno â sail dyraniadau trwyddedau?

C8 Oes unrhyw fathau o dystiolaeth sydd ar goll o'r rhestr?

C9 Ydych chi'n cytuno y dylid neilltuo 20% o'r cyfle pysgota i newydd-ddyfodiaid ifanc ac ydych chi'n cytuno â'r polisi dyrannu?

C10 Ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylid rhoi nifer lai o drwyddedau i sicrhau bod y rheini sy'n pysgota yn gallu gwneud bywoliaeth o'u gweithgarwch drwy'r flwyddyn a bod yn rhan o ddyfodol y bysgodfa ac yn ystyried anghenion y cymunedau yr effeithir arnynt gan y bysgodfa?

C11 Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddyrannu trwyddedau ar sail rhestr mewn trefn restrol a luniwyd a bod tua 25 o dunelli o gocos yn incwm personol rhesymol i ddeiliad trwydded?

C12 A ddylai unigolyn allu cael mwy nag un drwydded yn ei alluogi i weithredu mewn mwy nag un bysgodfa?

C13 Ydych chi’n cytuno y dylai Gweinidogion Cymru ac asiantaethau gorfodi eraill atgyfnerthu eu pwerau i gymryd camau yn erbyn cynhyrchwyr sy'n cymryd cocos a gasglwyd yn anghyfreithlon?

C14 Ydych chi'n cytuno bod 5kg o gocos yn lefel dderbyniol y gall unigolyn eu cymryd bob dydd at ddefnydd personol?

C15 Ydych chi'n cytuno â'r fethodoleg a nodir yn Atodiad 2 ar gyfer pennu ffi'r drwydded?

C16 Os caiff cyfran o ffi'r drwydded ei neilltuo i gynghorau cymuned wella cynaliadwyedd y bysgodfa, pa fesurau ellid eu hariannu drwy'r arian hwn?

## Ymatebion i bob cwestiwn

Cafwyd cyfanswm o 50 o ymatebion. Nodir y ganran (a gyfrifwyd drwy gyfeirio at gyfanswm nifer yr ymatebion) fesul ateb o dan bob cwestiwn isod. Lle bo'n berthnasol, mae graff wrth ochr rhai atebion yn nodi canran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynigion.

**Cwestiwn 1 -** ***Beth yw eich ymwneud â'r pysgodfeydd cocos yng Nghymru?***

Dywedodd 40%: "Mae gennyf ddiddordeb mewn pysgodfeydd cocos neu rwy'n byw gerllaw pysgodfa o'r fath."

Dywedodd 20%: "Weithiau rwy'n casglu cocos at fy nefnydd fy hun/fy nheulu/fy ffrindiau."

Dywedodd 22%: "Rwy'n casglu cocos i'w gwerthu pan fydd cyfle yn lleol."

Dywedodd 36%: "Rwy'n gasglwr cocos masnachol ac yn teithio i fannau lle y gellir eu casglu."

Dywedodd 30%: "Arall."

*(Noder bod sawl ymatebydd wedi ticio mwy nag un o'r categorïau uchod.)*


**Cwestiwn 2 -** ***Ydych chi'n cytuno y dylid rheoleiddio pysgodfeydd cocos mewn modd gwahanol yn dibynnu ar eu maint?***

Fel y nodir yn y tabl isod, ar y cyfan roedd yr ymatebwyr yn cytuno y dylid rheoleiddio pysgodfeydd cocos mewn modd gwahanol yn dibynnu ar eu maint. O'r ymatebwyr a nododd eu bod yn cytuno neu'n anghytuno â'r cwestiwn, roedd 86% yn cytuno.

**Ymatebion a gafwyd**

| | |
|---|---|
| Ydw | **66%** |
| Nac ydw | **10%** |
| Dim sylw | **24%** |

**Canran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n anghytuno**




Roedd y mwyafrif o'r casglwyr cocos yn cytuno â'r cynnig. Fodd bynnag, roedd nifer hefyd yn cytuno â'r sylw *"Dylid rheoli pob gwely cocos cyn belled ag sy'n bosibl yn yr un modd i sicrhau cynaliadwyedd y diwydiant."*

Roedd chwech o'r saith sefydliad buddiannau cymunedol yn cytuno ac yn gadarnhaol iawn ynglŷn â'r pwnc hwn. Dywedodd yr un Sefydliad â Diddordeb a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig: *"Rydym yn gwrthwynebu'n gryf y cynnig i ddefnyddio system reoleiddio dwy haen ac, er ein bod yn cydnabod efallai na fyddai'n ymarferol rheoleiddio pob Pysgodfa o dan orchymyn a roddir i grantî, rydym yn credu'n gryf y dylai unrhyw system reoli a fabwysiedir fod yn gyson o leiaf â gofynion y trefniadau trwyddedu sydd ar waith ar hyn o bryd."*

Roedd pob ymatebydd o'r diwydiant yn cytuno â'r cynnig mewn perthynas â gwahanol ddull rheoleiddio. Nododd un sylw: *"Byddai'r diwydiant yn croesawu rhoi'r gwaith o reoli'r gwelyau cocos hyn yn nwylo Llywodraeth Cymru o'r diwedd gan eu bod yn ffynhonnell bwysig o gynnyrch i'r diwydiant a ffynhonnell fwyd i'r amgylchedd."*

Roedd y Sefydliadau eraill a ymatebodd yn cytuno, gydag un yn gwrthwynebu'r cynnig.

Ymysg y sylwadau cadarnhaol a gafwyd roedd;

*"Rydym yn gwerthfawrogi'r gydnabyddiaeth nad yw 'un ateb sy'n addas i bawb' yn arwain at reoli effeithiol…. Gan atgyfnerthu'r farn efallai na fydd un ateb yn addas..."*

*"..dylid datblygu strategaeth reoli hirdymor i reoli safleoedd mewn ffordd gynaliadwy yn unol â dull ecosystem."*

*"Rydym yn awgrymu y dylid defnyddio dull mor gyson â phosibl i fynd i'r afael ag uchelgeisiau cynaliadwyedd lefel uchel, ond y gofyniad pwysicaf ar gyfer rheoleiddio yw ei fod yn addas i'r diben, felly dylai'r amcanion rheoleiddio a'r dulliau mwyaf priodol/effeithlon o'u cyflawni lywio natur y dulliau rheoleiddio a ddefnyddir."*

Nododd ymatebwyr cyfrinachol eraill eu bod yn poeni am faterion trawsffiniol.


**Cwestiwn 3 - *Ydych chi'n cytuno y dylid defnyddio dull amlasiantaethol i reoli'r bysgodfa?***

Mae'r ystadegau isod yn adlewyrchu y byddai'r mwyafrif o ymatebwyr i'r ymgynghoriad hwn yn croesawu defnyddio dull amlasiantaethol i reoli'r bysgodfa. O'r ymatebwyr a nododd eu bod yn cytuno neu'n anghytuno â'r cwestiwn, roedd 87% yn cytuno.

**Ymatebion a gafwyd**

| | |
|---|---|
| Ydw | **68%** |
| Nac ydw | **10%** |
| Dim sylw | **22%** |

**Canran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n anghytuno**




Roedd y casglwyr cocos a ymatebodd yn awyddus i weld dull rheoli amlasiantaethol. Roedd un ymatebydd cadarnhaol yn cytuno, ond yn teimlo: *"...fel arfer, mae maint y mewnbwn amlasiantaethol yn creu mathau gwahanol o broblemau h.y. oedi o ran agor gwelyau, newidiadau munud olaf gan un neu fwy o'r partïon, ceisiadau sydyn am arian i barcio'ch cerbydau. Mae llinellau cyfathrebu clir yn hanfodol."*

Dywedodd ymatebydd arall: *"Ydw, cyn belled â bod cynghorau cymuned lleol a TREAG yn cael eu cynnwys i fwy o raddau.."*

Nododd un casglwr cocos ag amheuon y dylid creu *"siop un stop."*

Roedd safbwyntiau ymatebwyr o'r diwydiant ar y cynnig hwn yn gymysg. Dywedodd un sylw a gafwyd ar y pwnc: *"…mae angen gwneud penderfyniad amser real; erbyn i gyfarfod gael ei alw a phawb ddod ynghyd, efallai y bydd y broblem wedi gwaethygu ac achosi difrod parhaol pan fyddai ateb syml wedi datrys y broblem."*

O'r sefydliadau buddiannau cymunedol, roedd y rhan fwyaf yn cytuno â'r cynigion ac nid oedd unrhyw sefydliad yn gwrthwynebu dull amlasiantaethol. Roedd rhai'n teimlo bod dull o'r natur hwn *"…yn hanfodol"*, ond bod rhaid iddo fod *"..yn dryloyw"* a *"…rhoi pwyslais ar eglurder"* a *"..strategaeth gyfathrebu".*

Unwaith eto, ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig gan y sefydliadau eraill a ymatebodd. Ymysg sylwadau'r sefydliadau hynny roedd;

*"..bydd Corff Adnoddau Naturiol newydd Cymru yn helpu i annog dull mwy cydgysylltiedig."*

*"Bydd cydgysylltu strategol yn gwella'r eglurder i'r diwydiant a rhanddeiliaid, gan sicrhau y gellir targedu gwaith gorfodi a rheoleiddio."*

*"..rydym yn awgrymu y bydd hyn fwyaf buddiol gyda chynllun clir o swyddogaethau a chyfrifoldebau, yn ogystal â safbwynt clir a thryloyw"*
*"mae cysylltu ag awdurdodau lleol yn hanfodol – gallu gweithio gyda'n gilydd mewn perthynas â dogfennau cofrestru/gorfodi".*


**Cwestiwn 4 - *Ydych chi'n cytuno y dylid cadw cofrestr o'r holl gasglwyr cocos masnachol sy'n dymuno pysgota yng Nghymru, y dylent fod yn destun cynllun bagiau a thagiau statudol, ac y dylai fod yn ofynnol iddynt ddychwelyd ffurflenni yn nodi faint o gocos a gasglwyd ganddynt?***

O ystyried barn pob ymatebydd, derbyniwyd y dylid cadw cofrestr o'r holl gasglwyr cocos masnachol sy'n dymuno pysgota yng Nghymru, y dylent fod yn destun cynllun bagiau a thagiau statudol ac y dylai fod yn ofynnol iddynt ddychwelyd ffurflenni yn nodi faint o gocos a gasglwyd ganddynt. O'r rhai a nododd eu bod yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig, roedd 97% yn cytuno.

**Ymatebion a gafwyd**

| | |
|---|---|
| Ydw | **72%** |
| Nac ydw | **2%** |
| Dim sylw | **26%** |

**Canran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n anghytuno**




Nid oedd unrhyw gasglwr cocos yn gwrthwynebu'r cynnig, er na wnaeth rhai unrhyw sylwadau, ac roedd y mwyafrif llethol o gasglwyr cocos yn cytuno'n gyffredinol â'r sylw canlynol: *"Dylai fod yn ofynnol a dim ond pysgotwyr masnachol â phrofiad ddylai fod ar y rhestr."*

Roedd sefydliadau buddiannau cymunedol yn cytuno bod hwn yn gynnig cadarnhaol, ac ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad. Ychwanegodd un Sefydliad Buddiannau Cymunedol yn arbennig *"…ar yr amod bod y gofrestr, y cynllun bagiau a thagiau a'r cynllun dychwelyd ffurflenni yn nodi faint o gocos a gasglwyd yn cael eu gorfodi'n llym gan brosesau monitro effeithlon a digon o staff gorfodi cymwys yn y maes ac yn y swyddfa."*

Er na chafwyd unrhyw sylwadau gan lawer o'r ymatebwyr o sefydliadau cymunedol, roedd y rhai a ymatebodd yn cefnogi'r cynnig i gyflwyno cofrestr ochr yn ochr â chynllun a fyddai'n annog dulliau olrhain ac yn monitro cynaliadwyedd.

Roedd barn yr ymatebwyr o'r diwydiant yn gymysg ac, er bod y rhan fwyaf ohonynt o blaid, roedd rhai'n gwrthwynebu, ac fe gafwyd y sylw canlynol: *"Er bod hwn yn syniad da, mae yna bryder ynglŷn â chaniatáu newydd-ddyfodiaid i ddefnyddio'r pysgodfeydd. Byddai cynllun bagiau a thagiau sy'n seiliedig ar TAC blynyddol o 25t (rhif mympwyol) yn golygu tua 1,000 o fagiau a thagiau fesul unigolyn – yw hyn yn ymarferol?"*

Roedd sylwadau gan sefydliadau eraill yn cynnwys y canlynol;

*“Rydym yn cefnogi cynigion penodol sy’n ymwneud â dulliau olrhain, gan gynnwys cofrestru deiliaid trwydded a darparu cynwysyddion pwrpasol ar gyfer cocos (ar yr amod bod dogfennau cofrestru digonol yn cael eu defnyddio law yn llaw â bagiau a thagiau).”*

*“…Bydd atebolrwydd a gwybodaeth gywir sy’n codi o fesurau o’r fath yn sail i reoli unrhyw bysgodfa yn llwyddiannus”*

**Cwestiwn 5 -** ***Ydych chi'n cytuno â'r darpariaethau 'bagiau a thagiau' ar gyfer y pysgodfeydd mwyaf fel ffordd o reoli dulliau olrhain a lleihau'r risg y bydd cocos anghyfreithlon yn mynd i mewn i'r gadwyn fwyd?***


Ychydig iawn o'r ymatebwyr oedd wedi gwneud sylwadau ar y cwestiwn uchod, ond roedd y rhan fwyaf yn cytuno â'r darpariaethau 'bagiau a thagiau' ar gyfer pysgodfeydd mwy fel ffordd o reoli dulliau olrhain a lleihau'r risg y bydd cocos anghyfreithlon yn cyrraedd y gadwyn fwyd.

O'r rhai a nododd eu bod yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig, roedd 94% yn cytuno.

**Ymatebion a gafwyd**

| | |
|---|---|
| Ydw | **70%** |
| Nac ydw | **4%** |
| Dim sylw | **26%** |

**Canran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n anghytuno**




Mae ymatebion casglwyr cocos yn awgrymu eu bod yn croesawu cynllun 'bagiau a thagiau', ac ychwanegodd un sylw: *"..byddai hyn yn gam mawr tuag at sicrhau y gall y pysgotwyr cyfreithlon wneud bywoliaeth llawn amser".*

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o sefydliadau buddiannau cymunedol o blaid y cynnig i fynd i'r afael â'r materion yn ymwneud â dulliau olrhain a chocos anghyfreithlon yn cyrraedd y gadwyn fwyd, gan ddweud: *"mae hwn yn gam cyntaf yn y gwaith o reoli casglu anghyfreithlon."*

Er bod yr ymatebwyr o'r diwydiant yn cytuno â'r cynnig ar y cyfan, cafwyd y sylwadau canlynol; *"Mae'n ddull da ar un ystyr, cyn belled â bod y lefel briodol o orfodi'n cael ei defnyddio."* Fodd bynnag, nododd un ymateb o'r diwydiant: *"…pe bai proseswr yn rhoi'r gorau i gymryd y cynnyrch, ni fyddai'r broblem yn bodoli."*

Roedd pob sefydliad arall a wnaeth sylwadau ar y cynnig a nodwyd yng nghwestiwn 5 yn ei gefnogi, ond ychwanegwyd y canlynol;

*"1. Dylid tynhau'r system o sicrhau bod 'Dogfennau Cofrestru' yn gysylltiedig â phob achos o symud pysgod cregyn er mwyn gwella'r dulliau olrhain a helpu'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn – dylai derbynyddion llwythi hysbysu'r Awdurdod Bwyd ei bod wedi derbyn y llwyth.*

*2. Dylai'r arfer o gyflwyno 'Dogfennau Cofrestru' gwag lluosog i gasglwyr ddod i ben.*

*3. Pam bod rhaid cyfyngu'r system bagiau a thagiau i'r pysgodfeydd mwy yn unig? Y gallu i olrhain ac atebolrwydd yw un o'r materion sy'n cael eu trafod yma, a sydd yr un fath mewn pysgodfeydd llai o faint."*

*"Byddai'r darpariaethau 'bagiau a thagiau' yn rheoli'r dulliau olrhain, cyn belled â bod y system yn cael ei gweinyddu mewn ffordd gadarn a bod ei phrosesau a'i systemau'n cael eu harchwilo a'u hadolygu'n rheolaidd i sicrhau ei bod yn cyflawni ei hamcanion. Rydym yn awgrymu y dylai archwiliad ac adolygiad o'r fath fod yn rhan ganolog o'r adolygiad blynyddol o gynlluniau rheoli."*


**Cwestiwn 6 -** ***Ydych chi'n cytuno y dylai fod gan y Prif bysgodfeydd cocos gynlluniau caniatáu cyfyngedig?***

Roedd 60% o'r ymatebwyr o blaid cynllun caniatáu cyfyngedig ar gyfer Pysgodfeydd cocos mawr ac, o'r rhai a nododd eu bod yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig, roedd 86% yn cytuno.

**Ymatebion a gafwyd**

| | |
|---|---|
| Ydw | **60%** |
| Nac ydw | **10%** |
| Dim sylw | **30%** |

**Canran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n anghytuno**




Roedd data'n awgrymu bod y casglwyr cocos yn gefnogol iawn i gynllun trwyddau cyfyngedig mewn pysgodfeydd cocos mawr. Er hynny dywedodd un bod yn well ganddynt *"...Orchymyn Rheoleiddio".*

Roedd dau o'r sefydliadau buddiannau cymunedol yn cytuno â'r datganiad canlynol:

*"Byddem yn ffafrio defnyddio un dull rheoleiddio mewn perthynas â phob pysgodfa er mwyn iddynt oll weithredu o dan un set o delerau rheoli diffiniedig. (Gall hyn weithredu o dan system ganiatáu neu drwyddedu). Yn ei dro, byddai hyn yn galluogi dull unffurf a lefel gyfatebol o lywodraethu dros holl Bysgodfeydd Cymru."* Fodd bynnag, nododd un ymatebydd: *"..Mae'r Cyngor yn poeni am nifer y swyddogion sydd ar gael ar lawr gwlad o safbwynt Llywodraeth Cymru i fonitro a gorfodi cynllun caniatáu o'r fath…".* Ar y cyfan, roedd pob sefydliad buddiannau cymunedol yn cytuno y dylid rhoi cynllun caniatáu cyfyngedig ar waith.

Roedd yr ymatebwyr o'r diwydiant yn cytuno y dylai cynllun caniatáu cyfyngedig fod ar waith. Er hynny, nodwyd y sylwadau canlynol;

*"Nid cynllun caniatáu, ond pysgodfa reoledig â thrwydded"*

*"Nid yw hyn yn glir… heb ei ddiffinio'n ddigonol."*

Ychydig iawn o'r sefydliadau eraill a wnaeth sylwadau ar y cynnig hwn, ond roedd y rhai a ymatebodd yn gadarnhaol iawn, gan ddweud y byddai'n *"..hanfodol er mwyn rheoli Pysgodfeydd mawr mewn ffordd gynaliadwy".* Roedd un sefydliad o'r farn y: *"Dylai'r drwydded gynnwys cerdyn adnabod â llun".*


**Cwestiwn 7 - *Ydych chi'n cytuno â sail dyraniadau trwyddedau?***

Roedd 50% o’r ymatebwyr yn cefnogi’r cynigion ar gyfer sail dyraniadau trwyddedau. Dim ond 12% oedd yn anghytuno. O’r rhai a fynegodd farn, roedd 80% yn cytuno.

**Ymatebion a gafwyd**

| | |
|---|---|
| Ydw | **50%** |
| Nac ydw | **12%** |
| Dim sylw | **38%** |

**Canran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu’n anghytuno**




Roedd y casglwyr cocos yn cytuno â’r sail ar y cyfan, ond roedd ganddynt wahanol safbwyntiau ar y broses ddyrannu, gan gynnwys y sylwadau canlynol;

*“Hoffem ofyn pam na fyddai tystiolaeth o gyfranogiad perthnasol cyn 2009 yn cael ei hystyried wrth wneud cais am drwydded.”*

*“Mae’n well gen i drwyddedau”*

*“Ydw, ond mae angen gwneud pethau’n deg”*

*“Ni ddylai fod gan unrhyw unigolyn neu barti hawl i wneud cais os yw wedi derbyn collfarn neu rybudd yn y gorffennol”*

*“…Rhaid ei gwneud yn glir bod cyflwyno meini prawf ffug yn drosedd…”*

Roedd yr holl sefydliadau buddiannau cymunedol a ymatebodd yn cytuno â’r cynnig mewn perthynas â sail dyraniadau trwyddedau. Nododd un: *“Trwyddedau i bobl leol – rhaid mynd i’r afael â’r diffiniad o unigolyn lleol”.* Dywedodd un arall: *“Byddai croeso i ddull sy’n canolbwyntio ar y dinesydd ac, os yn ymarferol, darparu Pysgodfa leol i bobl leol. ….. Byddem hefyd yn annog rhoi ystyriaeth i droseddau blaenorol mewn perthynas â thorri amodau casglu.”*

Roedd pob ymatebydd o’r diwydiant yn gwrthwynebu’r cynnig, ac awgrymodd un *“..pysgodfa reoledig â thrwydded.”* Cwestiynodd ymatebydd arall y cyfnod cyfeirio a awgrymwyd.

Roedd yr ymatebion cyfyngedig gan sefydliadau eraill ar y pwnc hwn yn awgrymu eu bod yn cefnogi’r cynnig, a gwnaed y sylwadau canlynol;

*"…mae'n hanfodol nad yw'r broses ddyrannu'n arwain at bobl leol yn teimlo eu bod yn cael eu hallgáu o'r bysgodfa o blaid pobl o'r tu allan."*

*"Nid yw rhai o'r mathau o dystiolaeth o wybodaeth asesu a awgrymwyd yn arbennig o gadarn, gan eu bod yn anodd eu dilysu neu'n hawdd eu ffugio, neu nad ydynt yn brawf o hanes blaenorol e.e. cardiau busnes, papur pennawd neu ffotograffau. Nid yw hi'n glir pam y dewiswyd y cyfnod 2009-2011 i sefydlu hanes blaenorol."*

**Cwestiwn 8 - *Oes unrhyw fathau o dystiolaeth sydd ar goll o'r rhestr?***

Cafwyd rhai awgrymiadau ar gyfer unrhyw fathau o dystiolaeth sydd ar goll o'r rhestr o feini prawf ar gyfer dyrannu trwyddedau. Mae enghreifftiau o awgrymiadau fel a ganlyn.

Roedd awgrymiadau gan y casglwyr cocos yn cynnwys;

*"Yn ein barn ni, y mathau gorau o dystiolaeth i gael trwydded yw trwyddedau blaenorol – ffurflenni yn nodi faint o gocos a gasglwyd a phrawf bod yr unigolyn wedi talu treth fel pysgotwr."*

*"Y pysgotwr ddylai ddarparu tystiolaeth o'i hanes blaenorol, nid y prynwyr…"*

*"Yr unig ffordd o ddangos a yw unigolyn wedi bod yn gasglwr cocos hunangyflogedig dilys dros y blynyddoedd diwethaf yw trwy ddangos cyfrifon ar gyfer blynyddoedd blaenorol, yn arbennig gyda threth wedi'i thalu ar ei ffurflenni treth hunanasesu, gyda threuliau ar gyfarpar"*

*"Dylai fod gan ddeiliaid trwydded y tystysgrifau angenrheidiol fel yn y Gogledd; dylai trwyddedau gael eu cyhoeddi ar sail.. hanes h.y. ers pryd mae'r unigolyn hwnnw wedi bod â thrwydded, a yw'r unigolyn hwnnw wedi cyflwyno ffurflenni yn nodi faint o gocos a gasglwyd ganddo ac a yw'r unigolyn hwnnw wedi talu treth fel pysgotwr…"*

Mae rhai o'r sylwadau a wnaed gan sefydliadau buddiannau cymunedol ar y mathau o dystiolaeth ar gyfer dyrannu trwyddedau fel a ganlyn;

*"Mae'n ymddangos bod y categorïau o dystiolaeth yn cynrychioli system gymhleth a allai fod yn haearnaidd, sy'n peri pryder."*

*"… rydym yn croesawu'r dull o bennu pwy sy'n derbyn trwyddedau fel yr amlinellir yn Atodiad 1. Byddem hefyd yn croesawu'r bwriad i ddyrannu 20% o'r trwyddedau i bysgotwyr ifanc, yn ogystal â'r angen i gasglwyr cocos cymwys eraill fod yn bysgotwyr profiadol. Mae'n hollbwysig bod gan bysgotwyr wybodaeth ymarferol am welyau cocos unigol am resymau diogelwch a chynaliadwyedd. Yn hanesyddol, mae gwybodaeth o'r fath yn cael ei throsglwyddo i bobl ifanc sydd am ymuno â'r diwydiant gan y rhai sydd eisoes yn rhan o'r diwydiant yn lleol."*

Ychwanegodd ymatebwyr o'r diwydiant;

*"...Mae'r ddogfen ymgynghori'n cydnabod nad yw cyfran o'r rhai sy'n casglu cocos ar hyn o bryd yn rhoi sylw digonol i gynaliadwyedd hirdymor pysgodfa – fodd bynnag, mae'r meini prawf a ddefnyddir i wahaniaethu rhwng cymhwysedd yr unigolyn hynny ar gyfer unrhyw drwyddedau cyfyngedig yn ffafrio'r rhai sydd â hanes blaenorol…."*

Ymysg sylwadau'r sefydliadau eraill a ymatebodd roedd;

*“…mae gofyniad yr Awdurdod Trwyddedu Gangfeistri (GLA) i fasnachwyr pysgod cregyn ddod yn unigolion trwyddedig, ynghyd â chynllun trwyddedu uwch Awdurdodau Pysgodfeydd a Chadwraeth y Glannau (IFCA) a gorfodi dogfennau cofrestru’r Canllawiau Amgylcheddol, Iechyd, a Dioglewch (EHS), yn cael effaith fawr ar leihau gweithgareddau casglu cocos anghyfreithlon.”*

*“credwn y byddai’n ddefnyddiol pe gallai’r gofynion cyfreithiol o ran reoliadau Hylendid Bwyd y CE mewn perthynas â physgod cregyn gael eu cynnwys yn yr amodau ar gyfer dyfarnu trwydded e.e. dogfennau cofrestru, cofrestru fel gweithredydd busnes bwyd (fbo), dulliau olrhain a diogelwch cynhyrchion a roddir ar y farchnad ac ati”*


**Cwestiwn 9 -** ***Ydych chi'n cytuno y dylid neilltuo 20% o'r cyfle pysgota i newydd-ddyfodiaid ifanc ac ydych chi'n cytuno â'r polisi dyrannu?***

Roedd 50% o’r ymatebwyr yn cytuno y dylid neilltuo 20% o’r cyfle pysgota i newydd-ddyfodiaid ifanc ac yn cytuno â’r polisi dyrannu. O’r rhai a nododd eu bod yn cytuno neu’n anghytuno â’r cynnig, roedd 71% yn cytuno.

**Ymatebion a gafwyd**

| | |
|---|---|
| Ydw | **50%** |
| Nac ydw | **20%** |
| Dim sylw | **30%** |

**Canran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu’n anghytuno**




Er bod 66% o’r casglwyr cocos yn cytuno â’r cynnig, roedd llawer yn amheus ynglŷn â’r manylion, gan gredu bod 20% yn ganran rhy uchel o’r pysgota i’w neilltuo am sawl rheswm. Roedd rhai hefyd yn credu bod angen adolygu’r ystod oedran.

Roedd rhai o’r rhesymau dros ffafrio canran is yn cynnwys y canlynol: *“..Er ein bod yn cydnabod bod angen mecanwaith sy’n galluogi pobl ifanc i gael mynediad i’r diwydiant, mae hi hefyd yn bwysig sylweddoli y gall pysgotwr ifanc gymryd lle pysgotwr hirdymor â chyfrifoldebau ariannol mewn rhai achosion”, “…fyddech chi ddim yn gweld 12 neu fwy o bobl o dan 21 oed sy’n...ennill incwm o gasglu cocos..”, “ ..Rwyf wedi bod yn pysgota ers blynyddoedd lawer a does dim llawer o bobl ifanc yn ymuno â’r diwydiant, ond mae’n bwysig ein bod yn gadael ffenestr ar agor i bobl ifanc sydd am ymuno â’r diwydiant.” “Mae’r diffiniad o gyfran sylweddol yn amwys ac mae angen ei egluro..”*

Awgrymodd tri o’r ymatebwyr y dylai fod oddeutu 10%. Roedd cynllun prentisiaeth i gasglwyr ifanc yn awgrym poblogaidd.

Roedd y rhan fwyaf o’r sefydliadau buddiannau cymunedol o blaid sicrhau bod newydd-ddyfodiaid ifanc yn cael eu hannog. Gwnaed y sylwadau canlynol;

*“Byddai’r Cyngor hefyd yn croesawu’r bwriad i ddyrannu 20% o drwyddedau i bysgotwyr ifanc, yn ogystal â’r angen i gasglwyr cocos cymwys eraill fod yn bysgotwyr profiadol. Mae’n hollbwysig bod gan bysgotwyr wybodaeth ymarferol am welyau cocos unigol am resymau diogelwch a chynaliadwyedd. Yn hanesyddol, mae gwybodaeth o‘r fath yn cael ei throsglwyddo i bobl ifanc sydd am ymuno â’r diwydiant gan y rhai sydd eisoes yn rhan o’r diwydiant yn lleol.”*

*“..bydd hyn yn helpu i sicrhau cynaliadwyedd y cynllun a’r pysgodfeydd eu hunain i’r dyfodol.”, “Pysgotwyr ifanc – Byddai annog pysgotwyr ifanc yn gam cadarnhaol tuag at hyrwyddo perchnogaeth leol o’r diwydiant a sicrhau dyfodol mwy cynaliadwy i’r gwelyau cocos o safbwynt economaidd ac amgylcheddol.”*

*“Er nad ydym yn gwrthwynebu’r egwyddor o gadw 20% o’r cyfanswm y caniateir ei gasglu (TAC) ar gyfer pysgotwyr ifanc, rydym yn amau lefel fforddiadwyedd trwyddedau o’r fath.”*

Unwaith eto, dangosodd yr ymatebwyr o’r diwydiant eu bod yn cymeradwyo’r ddarpariaeth i newydd-ddyfodiaid ifanc. Fodd bynnag, roedd un ymatebydd o’r farn y byddai’n fuddiol neilltuo 10% ar gyfer pysgotwyr 16-24 oed a 10% ar gyfer pysgotwyr 24-26 oed.

Nododd un ymatebydd a oedd yn anghytuno: *“Yn hytrach na neilltuo ar gyfer pobl ifanc byddai prentisiaeth dan nawdd casglwr profiadol yn well i ddangos y ffordd gywir o ofalu am y bysgodfa; nid yw’n swydd, mae’n ffordd o fyw, a gall y casglwr hwnnw roi cyfle i brentis, ac unwaith y bydd wedi bwrw ei brentisiaeth gall gael ei drwydded ei hun. Ond mae’n rhaid cyflwyno newydd-ddyfodiaid fel y gellir rhoi trwyddedau newydd ar sail rhestr aros wrth i ddeiliaid trwydded hŷn roi’r gorau iddi; mae rhai pobl wedi bod yn aros am flynyddoedd am drwydded a byddai’n annheg peidio rhoi trwydded yn lle caniatâd, ond gall y noddwr roi ei drwydded i’r prentis neu rannu ei gwota tan iddo ymddeol os nad oes ganddo brentis, ac yna rhoi ei drwydded i rywun arall”*

Dewisodd y rhan fwyaf o’r sefydliadau eraill beidio ag ymateb i’r cwestiwn hwn. O’r rhai a ymatebodd, roedd dau o blaid y cynnig ac un yn erbyn. Ymataliodd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr.

Gwnaed yr awgrymiadau canlynol mewn perthynas â pha ddarpariaeth ddylai fod ar gael ar gyfer newydd-ddyfodiaid ifanc:

*“Rwy’n cytuno â’r egwyddor cyn belled ag y gellir amrywio’r ganran yn y dyfodol yng ngoleuni profiad.” Ac “Rydym yn cytuno bod darpariaeth i annog pobl iau i gymryd rhan ac ennill bywoliaeth o bysgota yn ganmoladwy. Mae lle i drafod ai 20% yw’r dyraniad cywir”*

**Cwestiwn 10 -** ***Ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylid rhoi nifer lai o drwyddedau i sicrhau bod y rheini sy'n pysgota yn gallu gwneud bywoliaeth o'u gweithgarwch drwy'r flwyddyn a bod yn rhan o ddyfodol y bysgodfa ac yn ystyried anghenion y cymunedau yr effeithir arnynt gan y bysgodfa?***


Ar y cyfan, ychydig iawn oedd yn gwrthwynebu'r cynnig y dylid rhoi nifer lai o drwyddedau i sicrhau bod y rheini sy'n pysgota yn gallu gwneud bywoliaeth o'u gweithgarwch gydol y flwyddyn a bod yn rhan o ddyfodol y bysgodfa ac yn ystyried anghenion y cymunedau y mae'r bysgodfa yn effeithio arnynt.

O'r rhai a nododd eu bod yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig, roedd 97% yn cytuno.

**Ymatebion a gafwyd**

| | |
|---|---|
| Ydw | 66% |
| Nac ydw | 4% |
| Dim sylw | 30% |

**Canran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n anghytuno**




O'r 28 ymateb gan gasglwyr cocos, dim ond un oedd yn gwrthwynebu'r cynnig hwn, felly roedd y rhan fwyaf yn cytuno â'r sylw: *"Rhaid ystyried anghenion ac amodau lleol".*

Yn ôl un casglwr cocos: *"Yr unig ffordd deg o roi trwyddedau yw trwy gynllun trwyddedau caeth (gyda ffi) a'u rhoi i gasglwyr dilys nad oes ganddynt ddim mwy nag un drwydded neu ganiatâd mewn man arall a'u rhoi i bawb sy'n gallu profi eu bod wedi gwneud incwm dros y blynyddoedd diwethaf fel casglwr cocos ac sy'n gallu dangos y dreth a dalwyd trwy eu ffurflenni hunanasesu".*

Dywedodd un arall: *"Mae hyn yn dibynnu ar a yw'r unigolion y dyrannwyd trwyddedau newydd iddynt yn teithio i rannau eraill o'r DU hefyd. Er enghraifft, byddai'n gwbl anghywir i ddyrannu trwyddedau i gasglwr yng Nghilfach Tywyn, er enghraifft, ar y Tair Afon. Yn hytrach na rhannu'r refeniw o bysgota, byddai'r sefyllfa hon yn cynyddu incwm gros un unigolyn".*

Nid oedd unrhyw un o'r sefydliadau buddiannau cymunedol, yr ymatebwyr o'r diwydiant na'r sefydliadau eraill yn gwrthwynebu'r cynnig hwn. Felly, cafwyd cytundeb diamheuol i'r cynnig hwn.

Nododd un sefydliad: *"…cytuno 100%..... y brif flaenoriaeth".*


**Cwestiwn 11 -** ***Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddyrannu trwyddedau ar sail rhestr mewn trefn restrol a luniwyd a bod tua 25 o dunelli o gocos yn incwm personol rhesymol i ddeiliad trwydded?***

Mae'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiwn hwn yn amhendant. O'r rhai a nododd eu bod yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig, roedd 55% yn cytuno.

**Ymatebion a gafwyd**

| | |
|---|---|
| Ydw | **34%** |
| Nac ydw | **28%** |
| Dim sylw | **38%** |

**Canran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n anghytuno**




Roedd y rhan fwyaf o'r casglwyr cocos o blaid y rhestr mewn trefn restrol a 25 tunnell fel incwm rhesymol. Fodd bynnag, bu cryn drafod ar y pwnc.

Roedd llawer yn cytuno â'r sylw: *"Rwy'n cytuno â'r rhestr mewn trefn restrol ond nid yw 25 tunnell yn ddigon, dylai fod yn 50 tunnell"* ac *"Er mwyn ennill bywoliaeth resymol o bysgodfeydd gydol y flwyddyn, byddai angen dyblu'r cyfanswm hwn".*

Nododd un: *"Os bydd unigolyn yn casglu 25 tunnell o gocos, gallai arwain at orbysgota difrifol a hwsmonaeth wael iawn".*

Roedd safbwyntiau'r sefydliadau buddiannau cymunedol a'r ymatebwyr o'r diwydiant ar y rhestr mewn trefn restrol ac incwm personol rhesymol o gasglu cocos yn amrywio. Roedd sylwadau'n cynnwys; *"Mae angen i'r system ddyrannu fod yn fwy agored a hyblyg a dylai fod yn seiliedig ar ystyriaethau gan gynnwys ardal, pris, argaeledd a chynhaeaf posibl."*

*"Ar sail y gyfradd bresennol o £400 fesul tunnell o gocos, mae'r dyraniad arfaethedig o 25 tunnell yn golygu incwm blynyddol o tua £8,000-10,000, sy'n annigonol."*

Roedd dau o'r tri sefydliad arall a ddewisodd wneud sylwadau ar y pwnc hwn yn anghytuno. Nododd un o'u sylwadau: *"Byddem yn cefnogi system o nifer sefydlog o drwyddedau yn seiliedig ar gyfrifiad o incwm rhesymol fesul trwydded ar TAC hanesyddol cyfartalog."* , roedd ymatebydd cyfrinachol arall yn poeni y byddai cyfyngiadau'n annog casglu cocos yn anghyfreithlon.


**Cwestiwn 12 - *A ddylai unigolyn allu cael mwy nag un drwydded yn ei alluogi i weithredu mewn mwy nag un bysgodfa*?**

Cafwyd cryn drafod ynglŷn â'r mater hwn, gydag ychydig mwy o'r ymatebwyr a nododd eu bod yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig yn cytuno (56%).

**Ymatebion a gafwyd**

| | |
|---|---|
| Ydw | **38%** |
| Nac ydw | **30%** |
| Dim sylw | **32%** |

**Canran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n anghytuno**




Roedd 10 o'r casglwyr cocos yn cytuno â'r cynnig, ond 11 yn anghytuno. Roedd y sylwadau o blaid fel a ganlyn;

*"Mae angen rhannu'r adnoddau a'r incwm"*

*"Mae'n bwysig cofio nad yw'r holl bysgodfeydd cocos ar agor yr un adeg o'r flwyddyn"*

*"Dylai, oherwydd ni ellir gwneud bywoliaeth o un bysgodfa'n unig…… Rwyf wedi bod yn pysgota ers blynyddoedd lawer, ac mae'n rhaid i mi bysgota ar wahanol draethau er mwyn ennill bywoliaeth gydol y flwyddyn"*

Roedd y casglwyr cocos a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig yn ffafrio'r syniad o roi un drwydded yn unig. Nododd un: *"Mae'n anoddach cadw cofnod o bob symudiad a chasgliad".*

Roedd safbwyntiau'r ymatebwyr o'r diwydiant yn amrywio, ond roedd y rhan fwyaf o blaid yr awgrym. Nododd un: *"Os yw Llywodraeth Cymru'n ceisio lledaenu manteision y gweithgarwch i'r gymuned leol a sicrhau bod hynny'n digwydd mor eang â phosibl, mae'n glir y bydd caniatáu i unigolyn feddu ar fwy nag un drwydded yn tanseilio hyn",* a dywedodd un arall a oedd o blaid: *"Mantais hyn yw os bydd un bysgodfa'n tanberfformio, oherwydd stociau neu ansawdd, gall y pysgotwyr bysgota mewn pysgodfa arall yn y DU."*

Nid oedd unrhyw sefydliad arall yn gwrthwynebu'r cynnig, ac awgrymodd rhai gynllun Cymru gyfan; awgrymodd un arall: *"dylai trwyddedau lluosog fod yn seiliedig ar gymhwyster yn dilyn cais".*

**Cwestiwn 13 -** ***Ydych chi'n cytuno y dylai Gweinidogion Cymru ac asiantaethau gorfodi eraill atgyfnerthu eu pwerau i gymryd camau yn erbyn cynhyrchwyr sy'n cymryd cocos a gasglwyd yn anghyfreithlon*****?**

Roedd yr ymatebwyr yn cytuno'n llwyr y dylai Gweinidogion Cymru ac asiantaethau gorfodi eraill atgyfnerthu eu pwerau i gymryd camau yn erbyn cynhyrchwyr sy'n cymryd cocos a gasglwyd yn anghyfreithlon, gyda mwyafrif o 66%. Ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig hwn.

Roedd pawb a fynegodd farn yn cytuno â'r cynnig hwn. Ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad.

**Ymatebion a gafwyd**

| | |
|---|---|
| Ydw | **66%** |
| Nac ydw | **0%** |
| Dim sylw | **34%** |

Roedd yr holl grwpiau a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, gan gynnwys casglwyr cocos, sefydliadau ac ymatebwyr o'r diwydiant, yn cytuno'n llwyr â'r cynnig. Roedd rhai o'r sylwadau a wnaed ar y mater yn cynnwys;

Dywedodd un casglwr cocos: *"Pe bai pob marchnad yn gwrthod derbyn cocos wedi'u potsio, byddai yna lai o botsio."*

Nododd sefydliad buddiannau cymunedol: *"Mae angen pwerau cryfach a mwy o gamau gorfodi amlasiantaethol i fynd i'r afael â lefelau uchel parhaus o bysgota cocos anghyfreithlon."*

*"Hanfodol"* oedd sylw sefydliad arall.


**Cwestiwn 14 - *Ydych chi'n cytuno bod 5kg o gocos yn lefel dderbyniol y gall unigolyn eu cymryd bob dydd at ddefnydd personol?***

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno bod 5kg o gocos yn lefel dderbyniol i unigolyn eu cymryd bob dydd at ddefnydd personol. O'r rhai a nododd eu bod yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig, roedd 76% yn cytuno.

**Ymatebion a gafwyd**

| | |
|---|---|
| Ydw | **52%** |
| Nac ydw | **16%** |
| Dim sylw | **32%** |

**Canran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n anghytuno**




Roedd y rhan fwyaf o'r casglwyr cocos yn cytuno â'r lefel defnydd personol ond, o blith yr ychydig rai a oedd yn gwrthwynebu, cafwyd y sylwadau canlynol:

*"Pe bai pawb yn casglu 5kg y dydd, byddai'n difetha'r maes gyda'r ffordd mae pobl yn cymryd mantais…",*

*"Mae 1kg yr un yn ddigon"* a *"Rhaid i ni sicrhau nad ydym yn diddymu hawl y cyhoedd ar sail y gost neu hwylustod gorfodi."*

Roedd sefydliadau buddiannau cymunedol, sefydliadau eraill ac ymatebwyr o'r diwydiant yn cytuno bod 5kg yn lefel dderbyniol o gocos i unigolyn eu cymryd bob dydd at ddefnydd personol.

**Cwestiwn 15 -** ***Ydych chi'n cytuno â'r fethodoleg a nodir yn Atodiad 2 ar gyfer pennu ffi'r drwydded?***


Roedd 50% o'r rhai a ymatebodd yn cytuno â'r fethodoleg a nodir yn Atodiad 2 o'r ddogfen ymgynghori ar gyfer pennu ffi'r drwydded. Yn y pen draw, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno i raddau helaeth â'r fethodoleg.

O'r rhai a nododd eu bod yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig, roedd 73% yn cytuno.

**Ymatebion a gafwyd**

| | |
|---|---|
| Ydw | **50%** |
| Nac ydw | **18%** |
| Dim sylw | **32%** |

**Canran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n anghytuno**




Cadarnhaodd 80% o'r casglwyr cocos a ymatebodd i'r cwestiwn hwn eu bod yn cytuno â'r fethodoleg ar gyfer pennu ffi'r drwydded. Fodd bynnag, roedd y sylwadau a gafwyd yn anghyson;
*"…Dylid cyflwyno ffi lanio yn hytrach na ffi trwydded."*

*"Rwy'n siŵr y byddai pysgotwyr yn talu am drwydded pe bai'r bysgodfa'n cael ei phlismona'n dda…"*

*"Dylai trwyddedau fod am ddim; mae'n ddigon anodd gwneud bywoliaeth fel y mae hi"*

*"Mae'n deg ar y cyfan, ond hoffwn weld ffi gychwynnol uwch i bob casglwr"*

*"Mae'n ymddangos bod y dull hwn dipyn yn decach na'r un a fabwysiadwyd ar gyfer ymgeiswyr Afon Dyfrdwy."*

Roedd cyfran uwch o'r sefydliadau buddiannau cymunedol o blaid y fethodoleg, heb fawr ddim gwrthwynebiad.

Roedd safbwyntiau'r ymatebwyr o'r diwydiant yn gymharol gyfartal, o blaid ac yn erbyn. Ymysg y sylwadau;

*"…dylai'r ffi fod ar gyfer y bysgodfa unigol, felly dylid cyflwyno ffi pro rata sydd yr un fath ar gyfer blynyddoedd da; rwy'n fodlon talu mwy os ydw i'n ennill mwy, ac i'r gwrthwyneb…"*

*"…rwy'n cefnogi'r egwyddor y dylai'r ffioedd adlewyrchu costau rheoli'r bysgodfa."*

Dewisodd y mwyafrif llethol o'r sefydliadau eraill beidio â gwneud sylwadau. Cafwyd sylwadau gan dri sefydliad, gyda dau ohonynt yn gwrthwynebu'r fethodoleg. Awgrymodd un:

*"Rhaid cynnwys rhai darpariaethau ad-dalu i ddarparu ar gyfer gwelyau'n cau e.e. yn dilyn methiant microbiolegol."*

**Cwestiwn 16 -** ***Os caiff cyfran o ffi'r drwydded ei neilltuo i gynghorau cymuned wella cynaliadwyedd y bysgodfa, pa fesurau ellid eu hariannu drwy'r arian hwn?***

Cafwyd rhai awgrymiadau gan ymatebwyr ynglŷn â sut y gellid defnyddio cyfran o ffi'r drwydded sy'n cael ei neilltuo i gynghorau cymuned i wella cynaliadwyedd y bysgodfa.

Roedd llawer yn cytuno y dylid defnyddio'r cyllid ar gyfer:

*"Llithrfeydd/pwyntiau mynediad i bysgotwyr"* a

*"..byddai cael lle diogel i lansio cychod yn ddelfrydol i gyfyngu ar y sathru ar ddolydd/ardaloedd o laswelltir; byddai ffi i gynnal glanfa/llithrfa fach hefyd o fudd i ddefnyddwyr cychod nad ydynt yn casglu cocos a fyddai am ei defnyddio."*

Roedd awgrymiadau eraill ynglŷn â sut i ddefnyddio'r cronfeydd wedi'u neilltuo yn cynnwys y canlynol;

*"Codi cuddfannau adar ar gyfer adaregwyr" ac*

*"..adeilad bach i gynnig gwybodaeth hanesyddol leol"*

*"…gwella cynaliadwyedd y gymuned trwy fuddsoddi mewn prosiectau seilwaith a thwristiaeth sy'n ymwneud â'r bysgodfa"*

*"helpu i roi cymorthdaliadau i bysgotwyr ifanc lleol i ymuno â'r diwydiant."*

*"ymchwilio i'r gyfradd marwolaethau cocos aruthrol dros y blynyddoedd diwethaf"*

## Camau nesaf

Caiff yr ymatebion hyn i’r ymgynghoriad eu hystyried gan y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd. Yna, bydd yn penderfynu pa gynigion y dylid eu rhoi ar waith yn y drefn newydd.

Ar ôl ystyried yr holl ymatebion a chanlyniadau’r adolygiad, mae’r ymgynghoriad wedi arwain at fandad clir ar gyfer cyflwyno’r gofynion canlynol:

a) cynllun cocos diwygiedig yng Nghymru;
b) mabwysiadu dull aml-asiantaeth;
c) gwell system olrhain;
d) cynllun newydd-ddyfodiaid ifanc/prentisiaeth;
e) defnyddio a chyflwyno mwy o reoliadau a chyfyngiadau, a phwerau cryfach i awdurdodau;
f) pysgota drwy'r flwyddyn, drwy gyfyngu ar y daliad a ganiateir.

Fodd bynnag, mae’n amlwg bod angen ymchwiliad pellach lle’r oedd canlyniadau’r ymgynghoriad hwn yn amhendant. Yr argymhellion na chafodd eu cefnogi’n bendant yw’r rhai yn ymwneud â’r broses dyrannu trwyddedau, y symiau sy’n cael eu dyrannu fesul trwydded a hawl yr unigolion i ddal mwy nag un drwydded mewn un bysgodfa. O ganlyniad, bydd yr argymhellion hynny’n cael eu hailystyried, ac unrhyw gynigion pellach yn destun ymgynghoriad arall cyn gosod trefn newydd ar waith.

## Atodiad A

### Rhestr o ymatebwyr*

Steve Bagley
Duncan Bamford
Alan Brill
Geraint Davies
Henry Evans
Shane David Evans
Shane Evans
Owen Harries
Gerald Howells
David Hutton
Glyn Hyndman
P E James
E N James
DH Kendall
Daniel Maclachlan
John Morgan
Joe Morrissey
John O'Connor
Byron Preston
Chris Thomas
E M Thomas
Cyngor Sir Gâr
WSTAA
Dinas a Sir Abertawe
Cyngor Cymuned Llansteffan a Llanybri
Cyngor Sir Gwynedd
Cyngor Sir Benfro
Cymunedau Pysgota De a Gorllewin Cymru Cyf
Burry Inlet Hand Gatherers Association
Blue Water shellfish supplies UK ltd
Asiantaeth yr Amgylchedd
RSPB
CCGC
Awdurdod Iechyd Porthladd Bae Abertawe
Grŵp awdurdodau perthnasol (RAG) Bae ac Aberoedd Caerfyrddin
Dŵr Cymru
Asiantaeth Safonau Bwyd
Selwyn Seafoods, Penclawdd

** Nid yw'r uchod yn cynnwys y rhai oedd yn dymuno aros yn ddienw neu'n gyfrinachol*